## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 16eg o Ionawr 2018.**

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Einir Thomas

**Hefyd yn Bresennol:** Sharon Wyn Parry o 7.30y.h.

**1. Ymddiheuriadau** – Dim

**2. Datganiad o ddiddordeb:** Dim

**Seddi Gwag:**
Daethpwyd â'r eitem hon ymlaen a'i drin ar ddechrau'r cyfarfod.
Cytunwyd yn unfrydol i gyfethol Mrs Sharon Wyn Parry i sedd wag ar y Cyngor.

**3. Cofnodion cyfarfod o 21ain Tachwedd 2017:**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Beryl Salisbury.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. **Cae Chwarae**: Penderfynwyd trafod hyn eto mis nesaf gyda'r bwriad o wneud penderfyniad terfynol i un ai codi'r teils rwber o dan y 'swing' ai peidio. Byddai'r clerc yn dod â lluniau o'r gwaith sydd dan sylw i'r cyfarfod nesaf.

2. **Llochesi Fws**: Cytunwyd i ofyn i CSYM am enw'r gwneuthurwyr er mwyn cael archebu'r nytiau a'r bolltau priodol.

3. **Seddi Gwag:** gweler uchod.

4. **Gwaith cynnal - Stad Treifan** - Nodwyd fod Mr Dylan Roberts wedi defnyddio sment i geisio atgyweirio'r wal wrth 38 Treifan sawl gwaith ond roedd o'r farn y byddai yn well cael saer maen i wneud y gwaith arni. Rhoddodd rif cyswllt i Mr Trefor Jones i'r clerc a chytunwyd y dylai ofyn iddo roi dyfynbris ar gyfer trin y wal hon a'r wal gerrig yn y cae chwarae.

5. Lon Cymyran - Nodwyd bod yr Adran Briffyrdd wedi marcio'r ffordd lle'r oedd angen atgyweiriadau cyffredinol. Penderfynwyd gofyn iddynt am y wybodaeth

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

ddiweddaraf.

6. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

Penderfyniadau Cynllunio -dim

Ceisiadau Cynllunio

32C204 – Baron Hill, Llanfair yn Neubwll – Cais llawn ar gyfer codi cytiau cwna a cathdy ar gyfer defnydd busnes, gosod carthbwll ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau – wedi ei dynnu'n ôl.

32C205 – Gwaelod Bach – Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol ac adeliadu annedd newydd yn ei le yngyd a mynediad newydd wedi ei dynnu'n ôl.

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd
2. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – Cofnodion 21.11.2017–nodwyd.
3. Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu - byddai'r clerc yn dosbarthu'r manylion cyswllt

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2017 i 31.12.2017 ynghyd â Chysoniad Banc a Datganiadau Banc.

**Yn y banc 16.1.2018 Cyfrif Cyfredol £13,904.27 Cyfrif Cadw £3,922.67**

**<u>Taliadau i'w gwneud</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Tachwedd a Rhagfyr.) | £359.84 | HMRC (TWE) | £90.00 |
| GMS | £33.60 | Gwaith Cynnal | £180.00 |
| Archwilydd Mewnol | £75.00 | | |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

8. **Cyfrifon 2017/18**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

Dosbarthwyd y cyfrifon hyd at 31.12.2017 gyda'r amcan wariant hyd at ddiwedd Mawrth 2018 i'r aelodau.

9. **Praesept 2018/19**

Trafodwyd gwariant y flwyddyn gyfredol a'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2018/19 yn fanwl. Ystyriwyd bod gan y Cyngor Cymuned ddigon o arian wrth gefn i wneud gwaith hanfodol ar yr arwynebau diogelwch yn y cae chwarae ac i ail beintio'r offer ond byddai'n rhaid neilltuo adnoddau ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw arfaethedig pellach ar y cae chware yn ogystal â rhoi cymorth ariannol at gynnal ac atgyweirio'r Neuadd Bentref. Ar ôl ystyried cynnydd ymylol o ran costau rhedeg o ddydd i ddydd, y gwariant a ragwelir ar y llwybrau troed a'r waliau cerrig cytunwyd i ofyn am praesept o £12,500 ar gyfer 2018/19.

**10. Rhoddion – dim**

**11. Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Ymgynghoriad CCA Wylfa Newydd Ionawr 2018
2. Strategaethau lleol ar gyfer darparu toiledau – Dogfen Ymgynghori.
3. Amseroedd Aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys
4. Cynrychiolaeth Gymunedol - Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref
5. Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion Rhagfyr 2017
6. Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref
7. Age Cymru EnvisAGE - Mynd i'r afael ag unigrwydd ymysg pobl hŷn
8. Ymgynghoriad Cyfraith Cynllunio Cymru
9. Cyhoeddi Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol
10. Fforwm Cyswllt - Ffioedd Claddu Plant

**11. Unrhyw fater arall – dim**

**12. Cyfarfod nesaf 20fed o Chwefror 2018**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….